**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Cyllid Ysgolion a gynhaliwyd yn Ystafell Aeron Fach, Campws Felinfach ddydd Llun, 19 Mehefin, 2017.**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Catrin Miles (Cadeirydd).

**Aelodau nad ydynt o ysgolion:** Barry Rees (Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau), Matthew Brown (Pennaeth y Gwasanaethau Dysgu), y Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Arweinydd y Cyngor), y Cynghorydd Odwyn Davies (Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu) a'r Cynghorydd Endaf Edwards (Is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu).

**Aelodau o ysgolion:**
Cynrychiolwyr Ysgolion Uwchradd: Richard Bennett (Ysgol Penglais) a Chris Evans (Ysgol Uwchradd Aberteifi).

**Swyddogion yn bresennol:** Chris Macey (Pennaeth Cyllid ac Adnoddau Addysgol) a Kay Davies (y Gwasanaethau Democrataidd).

7.00pm –8.30pm

**1 Materion o Drefn**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolchodd i'r Cynghorydd Hag Harris am ei gadeiryddiaeth yn ystod y weinyddiaeth ddiwethaf.

**2 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd Lodwick Lloyd (Llywodraethwr), Peter Wellington (Aelod o Ysgol), Donna Hanley (Pennaeth Ysgol Gynradd Aberteifi), Alwyn Ward (Pennaeth Ysgol T. Llew Jones), Meinir Lewis (Pennaeth Ysgol Gynradd Llechryd) a Steve Johnson (Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol) am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

**3 Datgelu buddiannau personol**

Nid oedd buddiannau personol i'w datgelu.

**4 Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**CYTUNWYD** cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2016 yn gywir yn amodol ar ychwanegu enwau Chris Evans a Peter Wellington at y rhestr o bobl oedd yn bresennol.

**5 Materion yn codi o'r Cofnodion**

**5. Prydau ysgol -** Nodwyd bod ymchwil pellach i'w wneud i archwilio’r effaith caiff cynyddu pris prydau ysgol ar y nifer sy'n prynu prydau ysgol, cyn cynyddu'r pris 10c fesul pryd.
**9. Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain -** Nodwyd bod cynnydd yn cael ei wneud a bydd gwybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r Cynghorwyr maes o law. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Dysgu y buasai ailwampio Ysgol Uwchradd Aberteifi'n cael ei gynnwys yn y cais am gyllid Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

**6 Perfformiad Ariannol y Gwasanaethau Dysgu 2016-17**

Nodwyd bod y Gwasanaethau Dysgu'n gweithio'n sylweddol o fewn y gyllideb eleni er na ragwelwyd hyn yn wreiddiol. Gofynnwyd i bob adran gyfyngu ar eu gwariant cyllidebol oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol. Fodd bynnag, rhybuddiwyd y gallai'r sefyllfa ariannol newid ar unrhyw adeg pe bai cynnydd yn nifer y disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Hysbyswyd y cyfarfod bod lleoliadau ADY llwyddiannus o fewn Ceredigion wedi osgoi'r angen i wneud trefniadau drud y tu allan i'r sir.
Mae adolygu llwybrau wedi arwain at ostyngiad yng nghostau trafnidiaeth AAA ond mae’r ddarpariaeth yn parhau. Mae nifer sylweddol o swyddi gwag dros dro a gostyngiad cyffredinol o ran lefelau staffio wedi arwain at lai o wariant yn sawl rhan o'r gwasanaeth. Roedd yr amrywiadau ffafriol hyn yn ddigon i dalu am y gwariant ar seilwaith addysgol a oedd fod cael ei dalu gan y cronfeydd wrth gefn. O ganlyniad, mae'r adnoddau hynny dal ar gael ar gyfer datblygiadau cyfalaf yn y dyfodol.

Nodwyd bod y proffil gwariant ar gyfer prosiectau mawr, ambell waith, yn fwy oherwydd eu maint.

Mae arbedion y gwasanaeth yn cael eu trosglwyddo i'r arbedion corfforaethol canolog. Mae cronfeydd wrth gefn ar gael i gefnogi Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

Er y gwnaed arbedion yn y flwyddyn flaenorol, bydd gwaelodlin y gyllideb yn aros yr un peth ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**7 Perfformiad Ariannol Ysgolion 2016-17**

**8 Cronfeydd Ysgolion Mawrth 2017**

Trafodwyd y ddwy eitem uchod oedd ar yr agenda gyda'i gilydd.

Roedd gwybodaeth ynghylch cyllidebau, gwariant a gweddill cronfeydd wrth gefn ysgolion wedi'i rhannu â'r Aelodau. Dangosodd y mwyafrif o ysgolion gwymp yn eu cronfeydd wrth gefn gyda rhesymau gwahanol am y cwymp hwn. Mae nifer o'r ysgolion uwchradd yn wynebu mwy o heriau na'r ysgolion cynradd. Mae'r ysgolion wedi gorfod cyllidebu ar gyfer y cynnydd yn y cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Nodwyd bod unrhyw ddiffygion ariannol a oedd yn yr ysgolion a gaewyd yn Llandysul a'r dalgylch wedi'u trosglwyddo i gyllideb Ysgol Bro Teifi.

Dywedodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor, ei bod wedi cyfarfod â phenaethiaid yr ysgolion uwchradd i drafod eu problemau ariannol. Mae Ysgol Penglais wedi llwyddo i ddychwelyd i gael arian dros ben. Nodwyd bod Ysgol Bro Pedr yn ailstrwythuro ar hyn o bryd ac yn datblygu cynllun busnes. Mae tîm Adnoddau Dynol cadarn ar gael i helpu ysgolion gyda'r holl newidiadau sy'n cael eu gwneud.

Rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod bod holl wasanaethau'r Cyngor yn dioddef gyda chwtogi sylweddol yn cael ei wneud. Bellach, nid oes staff sydd ag arbenigedd penodol mewn pynciau megis Ysgolion Iachach ac Eco Ysgolion o fewn y Gwasanaethau Addysg.

Nododd Mr Chris Evans bod adferiad wedi bod yn Ysgol Uwchradd Aberteifi, lle cafwyd canlyniadau arholiad ardderchog y llynedd, ac mae'r ysgol yn denu nifer o ddisgyblion o Sir Benfro, yn arbennig o Grymych.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**9 Cyllideb y Gwasanaeth Dysgu 2017-18**

Ystyriodd yr Aelodau gyllideb y Gwasanaethau Dysgu ar gyfer 2017-18. Nodwyd bod Cyllideb y Gwasanaethau Dysgu'n debyg i'r flwyddyn flaenorol a bod angen parhau i ganfod arbedion er mwyn dygymod â'r costau cynyddol.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau am grant chwaraeon a gefnogir gan Y Fonesig Kelly Holmes, a allai fod ar gael i ysgolion yn fuan.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**10 Adolygu'r Fformiwla Cyllido**

Rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod bod y fformiwla'n cael ei hadolygu, y mae mor deg â phosib ac mae'n cydymffurfio â'r blaenoriaethau er mwyn sicrhau bod y gyfran yn deg. Mae'r fformiwla a ddefnyddir yr un peth ar gyfer ysgolion bychain ac ysgolion mwy. Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn archwilio fformiwlâu ac egwyddorion cyllidebau. Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag ysgolion uwchradd a byddant yn cael eu cynnal yn fuan gydag ysgolion cynradd. Efallai bydd y broses yn cael ei chyflwyno dros y 2-3 blynedd nesaf os bydd y newidiadau'n sylweddol ar gyfer ysgolion unigol. Nodwyd bod yr amserlen yn ymddangos yn weddol dynn o ran cynnal yr ymgynghoriad, cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a chael cymeradwyaeth y Cabinet erbyn yn gynnar yn 2018.
Bydd fformiwla'r gyllideb yn syml ac yn dryloyw ac yn seiliedig ar egwyddorion dysgu. Bydd yr effaith ar ysgolion yn cael ei harchwilio ym mis Medi cyn cychwyn y broses ffurfiol. Bydd blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu cefnogi ynghyd â'r flaenoriaeth genedlaethol ynghylch cael mwy o fynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei chyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

**CYTUNODD** yr Aelodau i nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**11 Grant Gwella Addysg 2017-18**

Nodwyd bod dyraniad y Grant Gwella Addysg wrth Lywodraeth Cymru, a ddosbarthir gan ERW, yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ac i'w gadarnhau. Rhaid cael cytundeb rhwng y 6 arweinydd ynghylch dyrannu'r grant yn deg.

Nodwyd bod y grant yn cefnogi gwella cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc a bod y Gwasanaethau Dysgu'n gweithio'n agos â Choleg Ceredigion.

Nododd yr Aelodau'r wybodaeth a ddarparwyd.

**12 Unrhyw fater brys arall**

Nid oedd unrhyw fater brys arall.

**13** Dyddiad y cyfarfod nesaf:  20 Tachwedd 2017

**Cadeirydd:** _______________

**Dyddiad:** ______________